

**Dylunio, cynnal a gwerthuso prosiect ymchwil
yn feirniadol gan ganolbwyntio ar fodel yr
athro trawsnewidiol wrth ddatblygu ymarfer
sy'n cael effaith gadarnhaol ar y dysgwr**

**Safbwyntiau addysgwyr o ddefnydd llais y disgybl i gynyddu
ymgysylltiad dysgwyr blwyddyn 7 at wersi Dyniaethau: Ymchwiliad
Astudiaeth Achos.**

Cyfrif Geiriau: 4717

Cyd-destun yr Ymchwil

Pwrpas y traethawd hwn yw i gynnal a gwerthuso prosiect ymchwil ar astudiaeth achos, gan ystyried model yr athro trawsnewidiol, er mwyn datblygu ymarfer addysgol cadarnhaol i bob dysgwr. Yr astudiaeth achos o dan ymchwiliad yw'r ddefnydd o llais y disgybl, a sut mae cynnydd yn y llais hwn yn effeithio ar ymgysylltiad dysgwyr blwyddyn 7 o fewn gwersi Dyniaethau. Dewiswyd y maes hwn yn sgil profiadau a thargedau personol ynglŷn ag arbrofi gyda strategaethau rheoli'r dosbarth gwahanol, yn ogystal â diddordeb pellach i'r ffactorau sy'n effeithio ar ymdrech dysgwyr i gwblhau tasgau o safon uchel. Ffocysir yr ymchwil hwn yn benodol ar safbwyntiau addysgwyr o'i ddefnydd o llais y disgybl, gan ymchwilio i sut mae aelodau'r adran wedi ei ymgorffori o fewn gwersi Dyniaethau, ac i adfyfrio ar yr effaith mae hyn wedi cael ar ymgysylltiad dysgwyr i gymharu gyda blynyddoedd neu unedau gwaith ble ni ddefnyddir.

Ymchwilir y prosiect hwn i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Ne Cymru, sydd â 699 dysgwr rhwng 11-18 mlwydd oed (Estyn, 2024). Mae 36% o ddysgwyr yn siarad Cymraeg gartref, yn ogystal â 16.4% ohonyn nhw yn hawlio am brydiau bwyd am ddim, sydd ychydig yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol Cymru o 21.2%. Mae'r dosbarthiadau o dan sylw wedi ei setio ychydig, er mae gallu dal yn amrywiol ymysg dysgwr. Mae gan y dosbarthiadau blwyddyn 7 pump (5) gwersi Dyniaethau ar draws amserlen tair wythnos.

Ymchwilir y prosiect ymchwil hwn i sut mae llais y disgybl yn effeithio ar ymgysylltiad dysgwyr blwyddyn 7 at wersi Dyniaethau. Rhoddir ffocws penodol i safbwyntiau addysgwyr yr adran Dyniaethau, gan amlinellu'r hyn mae dysgwyr yn dysgu o fewn y pwnc, cyn mynd ati i ystyried a gwerthuso'r graddau y mae llais y disgybl wedi cael ei ddefnyddio gan addysgwyr er mwyn codi ymgysylltiad at y gwersi.

Adolygiad o Lenyddiaeth

Deillir y syniad o lais y disgybl o syniadau ehangach ynglŷn ag ymarfer addysgol sy'n rhoi'r dysgwyr yng nghanol yr hyn sy'n cael ei benderfynu a'i weithredu. Cefnogir hyn gan waith Mitra (2009), sy'n datgan bod perthynas cadarnhaol rhwng ymdrech ysgolion i ymgorffori llais y disgyblion a chynnydd mewn agwedd a chyfrifoldeb at waith gan ddysgwyr. Mae'r defnydd hyn felly o llais y disgybl yn syniad sy'n cael ei drafod ar draws y llenyddiaeth, gyda diffiniadau ac ystyriaethau o'i heffaith amrywiol yn amlygu.

Diffinnir Flutter (2007) llais y disgybl fel y cyfleoedd sydd gan ddysgwyr i gynnig syniadau ynglŷn â gweithrediad addysgol yr ysgol. Trafododd Cheminais (2008) hyn ym mhellach, gan gyflwyno'r syniad fel un sy'n hyrwyddo cyfleoedd i safbwyntiau'r dysgwyr cael ei chymryd o ddifri, wrth i addysgwyr bod yn agored i ddysgu oddi wrth y dysgwyr ac i gyd-weithio er mwyn cefnogi cynnydd pob dysgwr. Gwelir y syniad hwn yn datblygu ym mhellach, gyda'r syniad o ysgolion yn gweithredu'n democratiaid yn amlygu'n gynyddol gan academyddion megis Simó et al., (2016) a Flutter & Ruddock (2004). Nodir rhain bod trwy ddefnyddio llais y disgybl, maent yn hyrwyddo system a gweithrediad addysg sy'n rhoi'r dysgwyr yng nghanol pob penderfyniad, gan alluogi dysgwyr i fod yn aelodau actif o weithrediad yr ysgol.

Fel cyfeirir at uchod, mae sawl mantais o ddefnyddio llais y disgybl wedi cael ei awgrymu a'i ddarganfod o fewn gwaith ymchwil y maes. Y prif lwyddiant sy'n amlygu yw'r cyfleoedd maent yn rhoi i ddysgwyr i ddefnyddio eu rôl actif fel aelodau'r ysgol i weithredu newidiadau gwerthfawr yn yr hyn profwyd yn yr ysgol (Flutter, 2007). Ymchwiliodd McIntyre et al., (2005) i hyn, gan ddarganfod bod ymgysylltiad dysgwyr yn cynyddu wrth i ddysgwyr teimlo ei fod nhw'n cael ei ymddiried ynddi i gymryd rheolaeth ac arweinyddiaeth dros yr hyn maent yn dysgu. Mae safbwynt hyn yn cael ei gefnogi gan Marsh (2012), a aeth datgan bod trwy ddefnyddio llais y disgybl, gwelir effaith cadarnhaol ar berthynas yr addysgwr a'r dysgwr, sydd yn ei thro yn arwain at ddylanwad cryf at ymdrech ac ymgysylltiad dysgwyr at yr hyn profwyd yn yr ysgol a'i wersi.

Mae'r ystyriaethau hyn, ynglŷn â'r hyn sy'n dylanwadu ar ymgysylltiad dysgwyr at ddysgu, yn eang, gyda cheisiadau i'w ddiffinio a mesur yn amlygu ar draws y llenyddiaeth. Amlinellir hyn gan waith Taylor & Parsons (2011), sy'n datgan bod yn hanesyddol mae ymgysylltiad wedi cael ei weld fel cyfystyr am gyrhaeddiad. Er hyn, nodwyd bod erbyn heddiw mae pwyslais cynyddol wedi ei rhoi i rôl addysg ac addysgwyr i greu dysgwyr sydd medru ymdopi gyda heriau a sefyllfaoedd cyfoes. Adeiladir ar hyn gan ystyried syniadau o greu dysgwyr gydol oes, sydd medru cymryd cyfleoedd i gydweithio gydag addysgwyr a dysgwyr eraill fel aelod gwerthfawr o weithrediad yr ysgol, er mwyn cael llais. Amlinellir hyn ym mhellach gan Windham (2005), sy'n cyflwyno'r syniad hyn fel elfen allweddol o gryfhau'r perthynas dysgwr-

addysgwr er mwyn cadarnhau a datblygu bywyd yr ysgol i bob dysgwr. Hynny yw, o ran y cwricwlwm a'r hyn sy'n cael ei addysgu, ond hefyd y penderfyniadau ehangach sydd yn hanesyddol wedi dilyn strwythur 'top i lawr'. O hyn felly, gwelir bod llais y disgybl yn gynyddol yn cael ei ddefnyddio i geisio cryfhau'r perthynas hyn, ac yn i weithio tuag at gynyddu ymgysylltiad dysgwyr trwy annog dysgwyr i rhannu syniadau a chymryd cyfrifoldeb dros yr hyn hoffwn nhw profi yn yr ysgol.

Mae safbwyntiau addysgwyr o llais y disgybl hefyd yn maes sy'n dechrau derbyn sylw o fewn y llenyddiaeth. Trafodir hyn gan Fielding (2011), wrth iddynt gefnogi'r safbwynt bod defnydd o llais y disgybl yn cryfhau'r perthynas rhwng y dysgwyr a'r addysgwr, sy'n fanteisiol er mwyn cefnogi addysg o safon uchel ac i annog dysgwyr i chwarae rôl fwy gweithredol yn y dysgu a bywyd yr ysgol. Cefnogir hyn gan waith Cook-Sather et al. (2017), sy'n awgrymu bod prif werth llais y disgybl i addysgwyr yw'r cyfleoedd maent yn rhoi iddyn nhw i wrando ar safbwyntiau dysgwyr a datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'i diddordebau a gofynion. Yn ogystal â hyn, maent yn hyrwyddo teimlad o berthyn ymysg dysgwyr, elfen sy'n cael ei gydnabod ar draws llenyddiaeth flaenllaw fel rhan allweddol o gynyddu ymgysylltiad dysgwyr.

Er hyn, mae rhai yn beirniadu'r strategaeth, gan awgrymu bod angen i'r defnydd o llais y disgybl bod yn bwrpasol a gwerthfawr er mwyn cadw ymgysylltiad dysgwyr. Trafodir hyn gan Lundy (2007), o fewn cyd-destun Erthygl 12 yr Hawliau Plant y Cenhedloedd Unedig, wrth iddynt atgyfnerthu'r ddealltwriaeth bod nid yn unig yw rhoi llais i blant yn fodel addysgegol gwerthfawr, ond ei bod hi hefyd yn gyfraith mae pob ysgol gorfod ei ddilyn. Adeiladwyd ar y feirniadaeth hon hefyd gan ystyried gwaith Keisu & Ahlström (2020), ble darganfuwyd bod potensial i effeithiolrwydd llais y disgybl cael ei gyfyngu wrth iddynt gael ei drin fel digwyddiad 'un tro'. Hynny yw, bod dysgwyr yn teimlo nad yw unrhyw newidiadau neu weithrediad pellach yn cael ei weld yn dilyn cyfleoedd iddyn nhw ddefnyddio eu llais, sydd o ganlyniad yn arwain at ddatgysylltiad gan y dysgwyr (Ibid., tud.8).

Mae ymgysylltiad dysgwyr yn bwnc llosg o fewn llenyddiaeth addysgol, gyda diffiniadau eang ac amrywiol yn cael ei gyflwyno. Awgrymodd Trowler (2010), bod ymgysylltiad yn gallu cael ei fesur mewn tri phrif ffordd; ymgysylltiad agwedd, ymgysylltiad emosiynol, ac ymgysylltiad gwybyddol. Rhoddir beirniadaeth i syniadau fel hyn gan Macfarlane & Tomlinson (2017), wrth iddynt amlinellu bod ymgysylltiad yn dod o weithrediad dysgwyr o fewn y dysgu, a bod gwaith polisi ynglŷn ag elfennau megis presenoldeb yn cymryd dros y gwir heriau sy'n wynebu cadw ymgysylltiad dysgwyr.

Astudiaeth Achos

Gellir diffinio ymchwil astudiaeth achos fel ymdrech i gael dealltwriaeth ddyfnach o gyd-destun a gosodiad yr ymchwil (Cousin, 2005). Golygir hyn bod ymchwil empiraidd o ffenomenon cyfoes medru cael ei archwilio o fewn ei gyd-destun naturiol, sef yr ysgol yn yr achos y prosiect ymchwil hwn (Yin, 2018). Pwrpas y fath hon o ymchwil yw i adnabod maes ymchwil perthnasol a'i ddadansoddi yn ddwfn ar sail cefnogaeth tystiolaeth eang (Hancock et al., 2021). Gwelir ymchwil astudiaeth achos fel strategaeth ymchwil, nid methodoleg er mwyn casglu data, ac felly mae cwmpasu llenyddiaeth eisoes o fewn yr ymchwil hefyd yn galluogi dadansoddiadau a chasgliadau mwy cynhwysfawr (Priya, 2020).

Mae sawl cryfder i'r fath hon o ymchwil, gan ei fod yn rhoi'r cyfle i archwilio i achos penodol o ymarfer addysgu o fewn cyd-destun ysgol benodol yn holistaidd ac yn realistig (Stake, 1995). Mae hyn yn galluogi dealltwriaethau o achosion mwy cyfoes i gael ei ddatblygu (Hays, 2003), gan dynnu ar brofiadau go iawn er mwyn dod at gasgliadau ynglŷn ag unigolion neu grwpiau penodol. Mae ymchwilio i astudiaeth achos o fewn addysg hefyd yn hynod o werthfawr, gan maent yn galluogi dealltwriaeth ddyfnach o ffenomenon unigryw i'r sector ac i gyd-destun unigryw'r ysgol. Ystyrir hyn o fewn yr ymchwil hwn, gan mae cyd-destun gofodol a chymdeithasol yr ysgol yn chwarae rôl arwyddocaol o fewn y casgliadau darganfuwyd o'r ymchwil.

Er hyn, cydnabyddir bod gan ymchwil astudiaeth achos sawl cyfyngiad, sy'n cael ei adnabod ac amlinellu o fewn yr ymchwil. Yn bennaf, gwelir beirniadaeth at y strategaeth yn awgrymu bod meddir ond defnyddio astudiaeth achos er mwyn ymchwilio i sefyllfa neu grwpiau unigol. Hynny yw, ni fedrir cyffredinolï'r hyn sy'n cael ei ddarganfod o'r ymchwil i sefydliadau neu systemau ehangach Flyvbjerg (2004). Golygir hyn yn achos y prosiect ymchwil hwn, bod beirniadaeth yn cael ei rhoi i'r ymchwiliad o un ysgol neu elfen o'r system addysg a'r ceisiad i'w gymhwyso at bob ysgol neu grwpiau cymdeithasol cyfan.

Ffocysir yr ymchwil hwn ar astudiaeth achos safbwyntiau addysgwyr yr adran Dyniaethau ar ddefnydd a llwyddiant llais y disgybl i effeithio ar ymgysylltiad dysgwyr at y dysgu. Casglwyd data o'r pedwar (4) aelod o staff yr adran, sydd yn bennaf yn cwmpasu penaethiaid adran. Dewiswyd y cyfranogwyr hyn felly ar sail ei rôl o fewn cynllunio cwricwlwm Dyniaethau'r ysgol, er mae safbwyntiau hefyd yn cael ei gasglu gan addysgwyr eraill sydd yng nghlwm a'r adran er mwyn allu casglu a dadansoddi safbwyntiau eang am y pwnc, e.e. addysgwyr Addysg Grefyddol, Hanes a Daeryddiaeth. Penderfynwyd wedyn ar ymchwilio i astudiaeth achos blwyddyn 7, gan mae hyn yw'r flwyddyn sy'n derbyn cwricwlwm cyffredinol o fewn y maes dysgu, yn lle pynciau unigol. Gwelir hyn fel elfen werthfawr i'r astudiaeth achos, gan ellir cyfeirio at nid yn unig safbwyntiau'r addysgwyr o lais y disgybl gan ddysgwyr ar ôl iddyn nhw

orffen y flwyddyn, ond hefyd y defnydd o llais disgyblion o fewn y proses pontio. Hynny yw, gan archwilio i sut mae'r addysgwyr yn creu dilyniant rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, ac os gwelir llwyddiant yn y weithred hon. Ar gyfer hyn felly, nad oedd angen samplu, gan gyfeiriad cyffredinol trwy lens safbwyntiau'r addysgwyr yw ffocws yr astudiaeth achos hon.

Ystyriaethau Moesegol

Dilynir canllaw BERA (2018) o fewn y traethawd hwn, ac felly bydd enw'r ysgol, aelodau'r staff a dysgwyr yn cael ei gadw'n anhysbys ar bob adeg. Yn ogystal â hyn, mae cydnabyddiaeth yn cael ei roi i rôl yr ymchwiliwr fel addysgwyr, ac felly mae safleoldeb yn cael ei sicrhau gan wirio dealltwriaeth yr holl gyfranogwyr o'i hawl i dynnu nôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg. Gan ymchwilir yn benodol i safbwyntiau addysgwyr, mae safleoldeb hefyd yn cael ei sicrhau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw duedd personol fel addysgwr o dan hyfforddiant yn dylanwadu ar atebion y cyfranogwyr. Hynny yw, gan beidio cynnwys safbwyntiau personol o ymgysylltiad dosbarthiadau penodol wrth ymchwilio i safbwyntiau aelodau staff yr adran at ymgysylltiad dysgwyr ar draws y flwyddyn, cyn i mi ddechrau addysgu yno.

Gan ffocysir y prosiect ymchwil hwn ar llais y disgybl, mae hi'n bwysig i sicrhau dealltwriaeth y cyfranogwyr o bwrpas yr ymchwil, gan nid beirniadaeth o'r dysgwyr neu weithrediad yr ysgol yw hi. Ar sail hyn felly, ac fel nodir uchod, mae anhysbysrwydd yn cael ei gadw ar bob adeg, gyda'r data sy'n cael eu casglu a dadansoddi yn cael ei gadw ar ffeil diogel 'OneDrive' ac yn cael ei ddileu yn syth ar ôl i'r ymchwil cael ei gyflwyno. Dilynir hyn canllaw BERA (2018) a chanllaw moesegol Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCDDS). Yn ogystal â hyn, mae sensitifrwydd ac agwedd proffesiynol at yr ysgol yn cael ei gynnal trwy gydol y prosiect ymchwil.

Gan ymchwilir i safbwyntiau addysgwyr at effaith llais y disgybl, ni fydd data yn cael ei gasglu neu ei ddefnyddio gan gyfranogwyr o dan yr oedran 18 o fewn y prosiect ymchwil hwn. Ar sail hyn felly, ni fydd angen i llythyron cydsyniad yn cael ei anfon i rheini neu ofalwyr dysgwyr neu bobl o dan 18 mlwydd oed. Yn hytrach, casglir data trwy ddosbarthu holiaduron ymysg aelodau staff yr adran. Mae llythyron caniatâd felly yn cael ei dosbarthu iddyn nhw er mwyn sicrhau eu dealltwriaeth o bwrpas yr ymchwil a'i chaniatâd i ddefnyddio eu hatebion o fewn y prosiect. Mae anhysbysrwydd yn cael ei bwysleisio o fewn yr ymchwil, gan hefyd sicrhau dealltwriaeth o ddysgwyr o'i hawl i dynnu nôl ar unrhyw adeg, a'r ffaith ni fydd eu hatebion a data yn cael ei newid yn ystod y proses dadansoddi data, neu ei storio ar ôl i'r ymchwil gorffen.

Dulliau

Fel nodir uchod, ymchwilir y prosiect hwn i safbwyntiau addysgwyr o ddefnydd a llwyddiant llais y disgybl at gynyddu ymgysylltiad dysgwyr o fewn gwersi Dyniaethau. Ar sail hyn felly, defnyddiwyd ambell ddull casglu a dadansoddi data er mwyn ceisio dod at gasgliadau ac awgrymiadau pellach dilyn.

Y prif ddull defnyddiwyd o fewn yr ymchwil hwn oedd holiaduron, wrth i'r 4 cyfranogwr ateb amrywiaeth o atebion agored a chaeedig wedi ei seilio ar geisio darganfod eu safbwyntiau nhw ar ddefnydd llais y disgybl o fewn cynllunio tymor hir a byr yr adran, ac os gwelir nhw lwyddiant i'r gweithgaredd o ran ymgysylltiad dysgwyr at y gwersi. Nodir ar bob holiadur pa bwnc mae'r cyfranogwr yn perthyn i, er fel amlinellwyd o dan y pennawd moesegol, mae enwau a gwybodaeth bersonol yn cael ei gadw'n anhysbys tu hwnt i hyn. Cefnogir hyn gan Rhind et al., (2014), sy'n amlinellu bod y gallu hwn i gadw anhysbysrwydd yw un o gryfderau mwyaf blaenllaw'r dull holiaduron. Rhoddir holiaduron hefyd y cyfle i gasglu data manteisiol ac ansoddol (Marshall, 2005), sydd o werth i'r ymchwil hwn gan ei fod yn galluogi dadansoddiad eang o'r safbwyntiau gwahanol. Er hyn, gan mae ymchwil astudiaeth achos yw'r ymchwil hwn, nid oes sampl digon mawr i gyfiawnhau tynnu casgliadau cyffredinol oddi wrth yr holiaduron hyn, neu i ddefnyddio'r data meintiol cynhyrchwyd fel cynrychiolaeth o safbwyntiau addysgwyr ar draws yr ysgol gyfan neu'r holl system addysg Cymru. Golygir hyn bod y data sy'n cael eu casglu a dadansoddi ohonyn nhw yn cael ei drin yn anecdotaidd.

Fel nodir uchod, mae holiaduron hefyd yn rhoi'r cyfle i ofyn cyfranogwyr amrywiaeth o gwestiynau agored a chaeedig. Er rhoddir rhai beirniadaeth i gwestiynau agored, gan ddatgan ei fod nhw'n dueddol o gael eu gwerth nhw wedi'i danseilio o ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth o sut i'w dadansoddi (O'Cathain & Thomas, 2004), mae'r defnydd o'r ddau fath o gwestiwn hyn yn hynod o fanteisiol o fewn yr ymchwil hwn. Fel cyflwynodd Schuman & Presser (1979), mae cynnwys cwestiynau agored, yn enwedig yn dilyn cwestiynau caeedig, yn gallu galluogi dealltwriaeth ddyfnach o safbwyntiau pobl, gan ofyn cwestiynau "Pam?" er mwyn ehangu ar atebion. Gan ymchwilir i benaethiaid adran yn bennaf yn yr astudiaeth hon, mae hyn yn hynod o bwysig, er mwyn allu gwir ddeall sut maen nhw'n gweithredu llais y disgybl a beth maen nhw'n teimlo am ei lwyddiant. Mae cwestiynau caeedig wedyn hefyd yn fanteisiol gan ei fod nhw'n rhoi'r cyfle i allu cymharu data yn fwy meintiol (Marshall, 2005). Mae hyn yn ddefnyddiol o fewn yr ymchwil hwn gan mae hi'n galluogi cymariaethau i gael ei wneud rhwng cyfranogwyr gwahanol ac i allu rhoi cyfleoedd iddyn nhw i gael dealltwriaeth well o ystyr y cwestiwn cyn ehangu arnynt o fewn y cwestiynau agored.

Rhoddir holiaduron y cyfle i hefyd cymharu data rhwng cyfranogwyr (Bihu, 2021), sy'n hynod o fanteisiol o fewn yr ymchwil hwn er mwyn allu adnabod tueddiadau a phatrymau rhwng nid

yn unig yr adran Dyniaethau, ond hefyd rhwng y penaethiaid adran a'r addysgwyr eraill. Mae rhai yn dadlau bod cyfyngiad i holiaduron yw ei fod nhw ond yn rhoi cipolwg o'r hyn ymchwiliir (Patten, 2016). Mae hi'n bwysig felly i sicrhau bod yr holiaduron wedi ei gynllunio yn ddigon manwl ac ei fod nhw'n gyfleoedd i'r cyfranogwyr i ehangu ar safbwyntiau, ac o bosib ychwanegi unrhyw sylwadau eraill. Er fel trafodir O'Cathain & Thomas (2004), mae beirniadaeth yn cael ei roi i'r fath hon o gwestiwn, gan ei fod yn aneglur o ran gofynion y cwestiwn ac yn bosib yn anodd dadansoddi, ond gan mae ond 4 cyfranogwr o fewn yr ymchwili hwn, mae cynnwys cyfleoedd i ehangu ar y diwedd yn fanteisiol. Cyflwynwyd hyn gan ychwanegi flwch opsiynol ar waelod yr holiadur, er mwyn i gyfranogwyr i ysgrifennu mwy am eu safbwyntiau neu syniadau ychwanegol ar sail y cwestiynau atebwyd uchod.

O fewn y cynllunio ar gyfer methodoleg yr ymchwili hwn, rhoddir cydnabyddiaeth i oedran y cyfranogwyr, gan maen nhw'n aelodau profiadol o'r ysgol a'r system addysg. Ar sail hyn felly, mae ystyriaethau yn cael ei roi er mwyn sicrhau bod nid yn unig safonau iaith yr holiaduron yn fanwl gywir, ond hefyd bod geirfa'r cwestiynau'n ddealladwy ac yn adlewyrchu pwrpas yr ymchwili a'r dull penodol. Fel atgyfnerthwyd ar draws y traethawd hwn, mae anhysbysrwydd yn cael ei gadw gan wahaniaethu rhwng holiaduron fel 'Cyfranogwr 1', 'Cyfranogwyr 2', ac ati. Nid yn unig ydy hyn mewn llinell gyda chanllaw BERA (2018) a chanllaw Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ond hefyd maent yn galluogi strwythur clir ynglŷn â pha safbwynt sy'n perthyn i ba gyfranogwr er mwyn adnabod patrymau.

Yn ogystal â hyn, defnyddir sawl fath o gwestiwn er mwyn casglu safbwyntiau addysgwyr, gyda chwestiynau caeedig yn cynnig ateb naill ai 'Ydy' neu 'Nac Ydy', ac eraill yn defnyddio graddfa Likert. Mantais y fath hon o gwestiwn yw ei bod hi'n galluogi mesuriad o agweddau cyffredinol y cyfranogwyr (Johns, 2010), sy'n galluogi cymhariaeth syml o safbwyntiau cyfranogwyr gwahanol. Er mae beirniadaeth yn cael ei rhoi i'r dull, yn benodol gan ei fod yn anodd mesur dilysrwydd yr atebion wrth i ormod o opsiynau cael ei gyflwyno (Yusof et al., 2019), mae hi'n ddull hawdd i ddeall gan gyfranogwyr ac yn llwyddiannus o ran derbyn syniadau a safbwyntiau cychwynnol ganddyn nhw.

Dull Cyflwyno a Ddadansoddi Data

Mae sawl dull dadansoddi data y medrir defnyddio o fewn y gwaith ymchwil hwn. Er hyn, ffocysir yn benodol ar ddadansoddiad thematig, er mwyn dadansoddi safbwyntiau'r cyfranogwyr ac adnabod y patrymau a themâu tebyg sy'n amlygu. Mae dadansoddiadau thematig yn rhan o ddadansoddi gwaith ymchwil ansoddol (Terry et al., 2017), gan dynnu ar y data casglwyd ac adnabod tueddiadau mewn safbwyntiau neu wybodaeth arall cyflwynwyd er mwyn allu dod at ystyr. Mae sawl cryfder i'r fath hon o ddadansoddi a chyflwyno data, yn bennaf y cyfleoedd maent yn rhoi i fod yn hyblyg gyda'r data, gyda'r gallu hefyd i ymdrin gyda data o samplau bach (Clarke & Braun, 2017). Mae hyn yn hynod o fanteisiol i'r gwaith ymchwil hwn, gan mae'r sampl yn cynnwys ond 4 cyfranogwr, ac felly trwy ddefnyddio'r dull dadansoddi hon, maent yn galluogi ystyr i gael ei ystyried a'i phenodi ar sail yr hyn cynhyrchwyd o ddull ymchwil holiaduron (Ibid., tud.298).

Er hyn, mae rhai yn gritigol o'r fath hon o ddull dadansoddi data, yn bennaf oherwydd pryderon dros beth i gynnwys o fewn y dadansoddiad. Mae hyn yn gallu amlygu o sawl dull casglu a dadansoddi data, ac felly trwy wneud holiaduron, maent yn lleihau'r cyfyngiad hon. Golygir hyn bod cyfranogwyr medru ateb cwestiynau penodol er mwyn rhoi strwythur ac unffurf i'r ymchwil, sy'n wneud adnabod patrymau thematig yn addas.

Amlinellodd Braun & Clarke (2006) y proses o ddilyn y fath hon o ddadansoddi thematig, gan dynnu sylw at y proses o adnabod a diffinio patrymau a themâu penodol o fewn y proses casglu data. Mae'r proses hyn o fapio'r themâu a'i enwi yn cael ei wneud trwy adnabod prif eirfa atebion yr holiaduron a thrwy ddefnyddio dyfyniadau o'r cwestiynau agored er mwyn ehangu ar safbwyntiau a chael dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn dadansoddwyd. Mae'r proses hyn o ddadansoddi hefyd yn cynnwys proses o godio data, sy'n cael ei diffinio gan Williams (2003) fel y proses o drwy ddata holiaduron i gategorïau ystyrion er mwyn allu cefnogi dadansoddiad. Mae'r cysylltiadau hyn rhwng adnabod patrymau yn galluogi dadansoddiadau pellach hefyd, gan roi cyfleoedd i ddata cael ei ddadansoddi fel ymchwil unigol ond hefyd o fewn y cyd-destun ehangach o'r cwestiwn ymchwil. Yn gyd-destun yr ymchwil hyn, mae themâu yn cael ei adnabod gan ddadansoddi a chategoreiddio geirfa gyffredin a safbwyntiau tebyg, er mwyn allu ymchwilio i safbwyntiau pynciau ac addysgwyr gwahanol, ond hefyd i gymharu rhwng pynciau ac ystyried yr adran yn ei gyfanrwydd.

Canlyniadau

Wrth ddosbarthu holiaduron i aelodau staff yr adran Dyniaethau, gwelir bod themâu o llais y disgybl fel gweithred fanteisiol yn amlygu, gyda'r holl gyfranogwyr yn ateb 'Ydy' i gwestiwn 6 yr holiadur ynglŷn â gwerth y llais. Wrth esbonio pam maen nhw'n credu hyn, gwelir pob cyfranogwr yn pwysleisio teimladau o gael eu "gwrando" i ac i gymryd rhan "actif" yn y pwnc.

Cyfeirir at Atodiad A i weld enghraifft o'r holiadur. Cysylltir hyn gydag unfurf pellach ymysg y cyfranogwyr, gyda phob un yn cydnabod bod llais y disgybl yw un o'r ffactorau sy'n cynyddu ymgysylltiad dysgwyr at ddysgu.

Er hyn, mae patrwm yn amlygu o 3 benaethiaid pynciol yn nodi bod cynnydd cadarnhaol i weld mewn ymgysylltiad o ganlyniad i ddefnydd llais y disgybl (cwestiwn 8), tra bod yr addysgwr adrannol arall yn nodi bod yr effaith hyn ond yn amlygu'n arwyddocaol o fewn y tymor byr. Datganwyd un;

"Dydw i ddim yn credu bod ymgysylltiad yn gynyddu yn gyffredinol oherwydd llais y disgybl ar ddechrau'r blwyddyn."

Mae'r hyn hefyd yn cael ei amlygu wrth i benaethiaid pynciol hefyd dangos tuedd i gytuno bod llais y disgybl yn cael ei ddefnyddio 'i raddau' (cwestiwn 10) wrth gynllunio unedau cwricwlwm Dyniaethau i flwyddyn 7.

Trafodaeth

Trwy ddadansoddi'r canlyniadau hyn, gellir awgrymu sawl patrwm er mwyn adnabod themâu cyffredin ar draws y data (Braun & Clarke, 2006). Y prif themâu sy'n amlygu ac yn cael ei gategoreiddio yw'r syniad o 'wrandio', 'dylanwadi' a 'perthyn', gyda Ffigwr 1 yn dangos cwmwl geiriau o'r hyn a aeth codi'n aml o fewn y cwestiynau agored yr holiaduron. Yn amlwg, gan nad oes sampl mawr o gyfranogwyr, mae'r eirfa hyn i'w gymryd yn anecdotaidd, er mae'r themâu hyn yn cael ei gefnogi yn eang ar draws llenyddiaeth sy'n trafod effaith defnyddio llais y disgybl ar ymgysylltiad dysgwyr (Mitra, 2009; Flutter, 2007). Yn ogystal â hyn, mae'r data casglwyd ynglŷn â safbwyntiau addysgwyr o berthynas defnydd llais y disgybl a'i ymgysylltiad yn un gellir tynnu at er mwyn deall sut mae ymgysylltiad yn cael ei ddiffinio gan y cyfranogwyr. Fel nodwyd Trowler (2010), un ffordd o fesur ymgysylltiad yw'r elfen emosiynol ac agwedd at y dysgu. Mae hyn mewn cyferbyniad gyda'r syniadau traddodiadol o ymgysylltiad uwch yn cyfateb gyda chyrhaeddiad uwch, sy'n cael ei gydnabod gan waith megis Taylor & Parsons (2011). Gellir awgrymu felly trwy ddadansoddi'r hyn rhannwyd y cyfranogwyr ynglŷn â gwerth llais y disgybl, bod yr effaith fwyaf yn cael ei weld wrth i ddysgwyr teimlo ei fod nhw'n cael rôl

actif yn yr hyn dysgwyr o fewn gwersi Dyniaethau, a bod profiadau'r addysgwyr yw gwraidd ceisio hwyluso hyn.




Ffigur 1: Cwmwl geiriau yn dangos y geirfa sy'n amlygu'n gyson o gwestiynau agored yr holiaduron. Gwelir themâu o rheoli, perthyn, gwranddo a ddylanwadu yn amlygi'r mwyaf. Tynnir geiriau megis 'mae' o'r cwmwl er mwyn cael dyluniad fwy dilys.

Er, fel rhannodd un cyfranogwr, mae'r ymgysylltiad hyn ddim yn hollol ddibynnol ar ofyn dysgwyr beth hoffwn nhw wneud ar ddechrau uned neu flwyddyn academaidd. Gellir awgrymu felly bod dysgwyr yn gweithio'n well pan mae opsiynau ganddyn nhw ac maen nhw'n gallu bod yn rhan o'r proses cynllunio cyfan. Gan fel amlinellwyd Lundy (2007), mae hi'n bwysig bod llais y disgybl yn cael ei ystyried trwy gydol eu profiadau addysg, mewn llinell gydag Erthygl 12 Hawliau'r Plant y CU.

Wrth ymchwilio i safbwyntiau addysgwyr o llais y disgybl, un o'r elfennau mwyaf pwysig i ystyried, er mwyn allu deall yr effaith ar ymgysylltiad dysgwyr, yw'r amlinelliad o beth mae'r adran yn gweithredu yn bresennol. Fel gwelir o Ffigur 2, wnaeth 2 cyfranogwr rhannu ei fod nhw'n teimlo bod ymgysylltiad dysgwyr at ddysgu yn dda "i raddau", gyda'r 2 arall yn ateb "cytuno". Er mae eto angen pwysleisio bod safbwyntiau'r addysgwyr yw hyn, ac felly cymerwyd y safbwyntiau hyn yn wrthrychol, gan ystyried eu rôl yn yr ysgol, gellir awgrymu bod gall ymgysylltiad dysgwyr fod yn uwch. Yn ogystal â hyn, gan ystyried atebion y cyfranogwyr o bob un yn ateb 'ydy' i os defnyddiwyd llais y disgybl o fewn cynllunio cwricwlwm Dyniaethau blwyddyn 7, gall y data hwn awgrymu bod er ymdrechion i ddefnyddio llais y disgybl, nid yw'r canlyniadau mewn llinell gyda'r hyn amlinellwyd o fewn y llenyddiaeth. Gellir hyn hefyd awgrymu bod angen i addysgwyr defnyddio llais y disgybl yn bwrpasol a pharhaus, fel trafododd gwaith Keisu & Ahlström (2020), er mwyn cael effaith arwyddocaol ar ymgysylltiad.

O bosib, bydd arbrofi gyda gwahanol ffurf o llais y disgybl o werth felly er mwyn ymchwilio'r maes hwn ym mhellach.



Ffigwr 2: Graff bar yn dangos safbwyntiau'r cyfranogwyr o gysylltiad dysgwyr at wersi Dyniaethau. Fel gwelir uchod, rhannwyd yr atebion yn hanner, gyda 2 cyfranogwr yn cytuno gyda'r datganiad a'r eraill yn cytuno 'i raddau'.

Casgliadau

Wrth ymchwilio i astudiaeth achos safbwyntiau addysgwyr o'r defnydd o llais y disgybl o fewn gwersi Dyniaethau blwyddyn 7, gellir tynnu sawl casgliad. Y prif gasgliad gellir tynnu o'r ymchwil hwn yw'r perthynas rhwng safbwyntiau addysgwyr o werth llais y disgybl, a'r hyn maen yn gweithredu mewn gwirionedd. Fel trafododd Keisu & Ahlström (2020), mae'r elfen hon o ddefnyddio llais y disgybl yn barhaus ac yn gweithredu strategaethau neu newidiadau ar ei sail yn holl bwysig er mwyn gweld y cynnydd mewn ymgysylltiad cyflwynir ar draws y llenyddiaeth (Fielding, 2011; Cook-Sather et al., 2017). Mae safbwyntiau addysgwyr felly yn awgrymu bod llais y disgybl yn elfen bwysig o wrando ac annog dysgwyr i fod yn gyfranogwyr actif o'i phrofiadau addysg, er mae awgrymiadau pellach yn cyflwyno bod gweithrediad y syniadau hyn yn ddibynnol ar sawl ffactor allanol arall. Hynny yw, er mae'r cyfranogwyr yn cydnabod gwerth llais y disgybl ac yn deall y perthynas rhyngddi hi ac ymgysylltiad dysgwyr, gall syniadau'r addysgwyr yr astudiaeth achos hon awgrymu bod gwir sail cynyddu ymgysylltiad yw cryfhau'r perthynas dysgwr-addysgwr a chynyddu cyfleoedd parhaus i roi dysgwyr yng nghanol y proses penderfyniadau (Windham, 2005; Simó *et al.*, 2016; Flutter & Ruddock, 2004).

Adfyfrio

Gan adfyfrio ar y prosiect ymchwil hwn, gwerthuswyd ar ddilysrwydd y dulliau casglu a dadansoddi data, yn ogystal â gallu casgliadau'r ymchwil i gael ei gyffredinoli. Er credaf mai'r gwaith ymchwil hwn wedi llwyddo i ddadansoddi safbwyntiau addysgwyr, credaf bydd dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn trafodir os bydd llais y dysgwyr wedi cael ei gynnwys. Ar sail hyn felly, gwendid yr ymchwil hwn yw'r diffyg safbwyntiau dysgwyr ynglŷn ag os maen nhw'n teimlo bod llais ganddyn nhw. Bydd ymestyn y dull holiadur ac o bosib cynnwys cyfweiliad grŵp ffocws gyda dysgwyr blwyddyn 7 o fudd enfawr i ddilysrwydd a dibynadwyedd yr ymchwil, gan gynnwys safbwyntiau o bob ochr. Yn ogystal â hyn, gan mae'r adran Dyniaethau ond yn cynnwys 4 aelod o staff, nid oes modd cyffredinoli'r data. Er hyn, gall yr hyn darganfuwyd o'r ymchwil rhoi syniadau cychwynnol i ni ynglŷn â safbwyntiau addysgwyr o werth a defnydd llais y disgybl.

Argymhellion Pellach

Wrth ymchwilio i safbwyntiau addysgwyr ar ddefnydd a llwyddiant llais y disgybl i gynyddu ymgysylltiad dysgwyr blwyddyn 7 at wersi Dyniaethau, gellir wedi ehangu'r ymchwil er mwyn cwmpasu safbwyntiau dysgwyr hefyd. Trwy wneud hyn, bydd casgliadau dyfnach o bosib wedi amlygu ynglŷn ag os yw disgyblion yn teimlo ei fod nhw'n cael llais. O hyn, bydd medru cymharu safbwyntiau'r addysgwyr a dysgwyr yn ddiddorol i weld.

O ran datblygu ymarfer addysgol personol pellach yn PAP2, bydd gweithredu sawl cyfle i gynnwys llais y disgybl er mwyn darganfod beth yw ofynion a diddordeb y dysgwyr o werth. Yn ogystal â hyn, bydd arbrofi gyda strategaethau gwahanol o gynyddu ymgysylltiad yn ddiddorol er mwyn allu gwerthuso ar effaith a darganfod pa fath o strategaethau sy'n fwyaf effeithiol.

Yn olaf wedyn, credaf bydd ceisio darganfod mesuriad o ymgysylltiad neu gyrhaeddiad yn rhoi golwg gwell o'r pwnc. Gan o bosib hefyd ystyried ffactorau allanol, e.e. effeithiau tymor hir fel y pandemig neu dymor byr fel y diwrnod, i geisio mesur os yw dysgwyr yn gweld gwerth i llais y disgybl neu os yw hi'n weithrediad dibwynt o safbwyntiau nhw.

Rhestr Ffynonellau

Flutter, J. (2007) Teacher development and pupil voice. ***The Curriculum Journal***. Vol, 18, Issue 3, tud.343-354.

McIntyre, D., Pedder, D., Rudduck, J. (2005) Pupil voice: comfortable and uncomfortable learnings for teachers. ***Research Papers in Education***. Vol 20, Issue 2, tud.149-168.

Marsh, H. (2012) Relationships for learning: using pupil voice to define teacher–pupil relationships that enhance pupil engagement. ***Management in Education***. Vol 26, Issue 3, tud.161-163.

Parsons, J., Taylor, L. (2011) Improving Student Engagement. ***Current Issues in Education***. Vol 14, Issue 1, tud.1-33.

Stake, R.E. (1995) The art of case study research. *SAGE Publications, Thousand Oaks*.

Cousin, G. (2005) Case Study Research. ***Journal of Geography in Higher Education***. Vol 29, Issue 3, tud.421-427.

Priya, A. (2021) Case Study Methodology of Qualitative Research: Key Attributes and Navigating the Conundrums in Its Application. ***Sociological Bulletin***. Vol 70, Issue 1, tud.94-110.

Flyvbjerg, B. (2004) Five misunderstandings about case-study research. ***Sosiologisk tidsskrift***. Vol 12, Issue 2, tud.117-142.

Mitra, D.L. (2009) Strengthening Student Voice Initiatives in High Schools: An Examination of the Supports Needed for School-Based Youth-Adult Partnerships. ***Youth & Society***. Vol 40, Issue 3, tud.311-335.

Cheminais, R. (2008) Engaging pupil voice to ensure that every child matters: A practical guide. *Routledge, London*.

Cook-Sather, A., Felten, P. (2017) Where Student Engagement Meets Faculty Development: How Student-Faculty Pedagogical Partnership Fosters a Sense of Belonging. ***Student Engagement in Higher Education Journal***. Vol 1, Issue 2, tud.3.

Flutter, J., Ruddock, J. (2004) Consulting Pupils: What's in it for schools? *RoutledgeFalmer, London*.

Simó, N., Parareda, A., Domingo, L. (2016) Towards a democratic school: The experience of secondary school pupils. ***Improving Schools***. Vol 19, Issue 3, tud.181-196.

- Lundy, L. (2007) 'Voice' is not enough: conceptualising Article 12 of the United Nations Convention on the Rights of the Child. *British Educational Research Journal*. Vol 33, tud.927-942.
- Keisu, B. I., Ahlström, B. (2020) The silent voices: Pupil participation for gender equality and diversity. *Educational Research*. Vol 62, Issue 1, tud.1–17.
- Hays, P.A. (2003) 'Case study research', in deMarrais, K.B., Lapan, S.D. (2003) Foundations for Research. tud.233-250. *Routledge, London*.
- Eckerdal, J.R., Hagström, C. (2017) Qualitative questionnaires as a method for information studies research. *Information Research*. Vol 22, Issue 2.
- Johns, R. (2010) Likert items and scales. Survey question bank: Methods fact sheet. Vol 1, issue 1, tud.11-28.
- Yusof, N.A.D.M., Jamil, P.A.S.M., Hashim, N.M., Karuppiah, K., Rasdi, I., Tamrin, S.B.M., Sambasivam, S. (2019) Likert scale vs. visual analogue scale on vehicle seat discomfort questionnaire: A review. *Malaysian Journal of Medicine and Health Sciences*. Vol 15, Issue 204.
- Schuman, H., Presser, S. (1979) The Open and Closed Question. *American Sociological Review*. Vol 44, Issue 5, tud.692–712.
- Macfarlane, B., Tomlinson, M. (2017) Critiques of Student Engagement. *Higher Education Policy*. Vol 30, tud.5–21.
- Clarke, V., Braun, V. (2017) Thematic analysis. *The Journal of Positive Psychology*. Vol 12, Issue 3, tud.297–298.
- Williams, A. (2003) How to ... Write and Analyse a Questionnaire. *Journal of Orthodontics*. Vol 30, Issue 3, tud.245-252.
- Braun, V., Clarke, V. (2006) Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology*. Vol 3, Issue 2, tud.77-101.
- O'Cathain, A., Thomas, K.J. (2004) "Any other comments?" Open questions on questionnaires – a bane or a bonus to research? *BMC Medical Research Methodology*. Vol 4, Issue 25.
- Bihu, R. (2021) Questionnaire Survey Methodology in Educational and Social Science Studies. *International Journal of Quantitative and Qualitative Research Methods*. Vol.9, No.3, tud.40-60.

Rhind, D., Davis, L., Jowett, S. (2014) 'Questionnaires', in Nelson, L., Groom, R., Potrac, P. (2014) *Research Methods in Sports Coaching*. *Routledge, London*.

Macfarlane, B., Tomlinson, M. (2017) Critiques of Student Engagement. *Higher Education Policy*. Vol 30, tud.5–21.

Patten, M. (2016) *Questionnaire Research: A Practical Guide*. 4th Edition. *Routledge, London*.

Marshall, G. (2005) The purpose, design and administration of a questionnaire for data collection. *Radiography*. Vol 11, Issue 2, pp.131-136.

Estyn (2024) Adroddiad [REDACTED]

BERA (2018) *Ethical Guidelines for Research*. Fourth Edition. URL:
<https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018>

Terry, G., Hayfield, N., Clarke, V. Braun, V. (2017) Thematic analysis. *The SAGE handbook of qualitative research in psychology*. Vol 2, Issue 37, tud.25.

Hancock, D.R., Algozzine, B., Lim, J.H. (2021) *Doing case study research: A practical guide for beginning researchers*. *Teachers College Press, New York*.

Yin, R. K. (2018) *Case Study Research and Applications: Design and Methods*. 6th Edition. *Sage, Thousand Oaks, California*.

Trowler, V. (2010) *Student Engagement Literature Review*. *The Higher Education Academy, York*.

Fielding M. (2011) 'Student voice and the possibility of radical democratic education: Re-narrating forgotten histories, developing alternative futures', in Czerniawski G., Kidd W. (2011) *The student voice handbook*. tud. 3–18.

Windham, C. (2005) 'The Student's Perspective', in D. Oblinger & J. Oblinger (2005) *Educating the Net generation*. tud.5.1-5.16.